**PWYLLGOR RHANBARTH Y CANOLBARTH** **MWR-01-03 (mins)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 24 Ionawr 2003 |
| **Amser:** | 10:30 - 13:00 |
| **Lleoliad:** | Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan |

**Yn bresennol**

*Aelodau*

| | |
|---|---|
| Mick Bates (Cadeirydd) | Sir Drefaldwyn |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Kirsty Williams | Brycheiniog a Sir Faesyfed |

*Hefyd yn bresennol*

| | |
|---|---|
| Ben Allen (eitem 3) | Llywydd, Undeb y Myfyrwyr, Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan |
| Keith Robbins (eitem 3) | Is-ganghellor, Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan |
| Roger Williams (eitem 4) | Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol, Cyngor Sir Ceredigion |
| Y Cynghorydd Alun Lloyd Jones (eitem 4) | Cadeirydd, Ymlaen Ceredigion |
| Helen Nelson (eitem 4) | Cydlynydd, Ymlaen Ceredigion |

*Yr Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Vaughan Watkin | Clerc Dros Dro y Pwyllgor |
| Martha Da Gama Howells | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion, datganiadau o fuddiant a gohebiaeth.**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor, y swyddogion ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Roedd ymddiheuriadau wedi dod i law wrth Nick Bourne, Cynog Dafis, Delyth Evans a Glyn Davies.

**Eitem 2: Ffioedd Ychwanegol a Datblygu Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan**

2.1 Rhoddwyd cyflwyniad gan Ben Allen, Llywydd Undeb y Myfyrwyr, Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan, ar ffioedd ychwanegol ar gyfer myfyrwyr mewn Addysg Uwch.

2.2 Dyma brif bwyntiau'r cyflwyniad:

- Roedd Undeb y Myfyrwyr yn Llanbedr Pont Steffan yn llwyr wrthwynebu ffioedd ychwanegol fel y nodwyd yn y Papur Gwyn. Dylai Aelodau fod yn ymwybodol mai dyma hefyd oedd barn Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr;

- Pe bai cynllun gwaddol ar gyfer graddedigion yn disodli'r ffioedd ychwanegol amcangyfrifwyd y byddai myfyrwyr yn gadael y brifysgol gyda dyledion o tua £18000 - £21000. Gallai hyd fod yn rhwystr difrifol i'r rheini a oedd yn dymuno cael addysg uwch mewn Prifysgol;

- Byddai ailgyflwyno grantiau cynhaliaeth yn golygu prawf modd ar sail incwm y rhieni. Nid oedd hyn yn dderbyniol gan y dylai myfyrwyr gael eu hystyried fel oedolion annibynnol - fel y cânt eu hystyried yn y rhan fwyaf o achosion ariannol eraill;

- Byddai unrhyw gymorth ariannol yn cael ei gyfrif fel incwm ac yn cael ei ystyried wrth bennu hawl pobl i fudd-daliadau. Rhoddwyd y system hon ar waith yn y lle

cyntaf mewn perthynas â Grant Dysgu'r Cynulliad a dylid llongyfarch y Cynulliad am egluro pwrpas y grant hwn, a oedd wedi galluogi'r Adran Gwaith a Phensiynau i'w ddiystyru yng nghyd-destun budd-daliadau;

- Nid oedd yr Undeb yn credu y câi'r problemau presennol ynglyn ag ariannu addysg uwch eu datrys drwy gyflwyno ffi gwaddol graddedigion;

- Dylai'r penderfyniad ynghylch ffioedd ychwanegol gael ei ddatganoli i'r Cynulliad.

2.3 Rhoddwyd cyflwyniad ar ddatblygiad y Brifysgol gan Keith Robbins, Is-ganghellor Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan.

2.4 Dyma brif bwyntiau'r cyflwyniad:

- Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan oedd y sefydliad addysg uwch hynaf yng Nghymru a byddai'n dathlu ei phen-blwydd yn 175 oed yn ystod y flwyddyn;

- Y cysylltiadau trafnidiaeth gwael oedd rhan o'r rheswm am yr anhawster wrth geisio recriwtio myfyrwyr yn ystod y blynyddoedd diweddar. Cafwyd rhai llwyddiannau ond er hynny roedd rhai Adrannau wedi cau;

- Yn hanesyddol, sefydliad y Celfyddydau a'r Dyniaethau oedd y Brifysgol ond roedd wedi wynebu anawsterau recriwtio dybryd mewn rhai pynciau traddodiadol a oedd yn cael eu hastudio yn yr ysgol gan gyn fyfyrwyr. Roedd hyn wedi golygu bod y cyrsiau Ffrangeg, Almaeneg a Daearyddiaeth wedi dod i ben. Roedd y Brifysgol wedi ceisio mynd i'r afael â hyn drwy ddarparu pynciau mwy galwedigaethol a thrwy cheisio gwneud ei myfyrwyr yn rhai mwy addas i'r cyflogi;

- Er mwyn ceisio denu myfyrwyr o gefndir mwy anhraddodiadol roedd Llanbedr Pont Steffan, ar y cyd â Phrifysgol Cymru, Aberystwyth, wedi cyflwyno'r Ysgol Haf a oedd wedi llwyddo i ddenu mwy o bobl i'r Brifysgol a hefyd i'r dref;

- Drwy gyflwyno'r Rhaglen Astudiaethau Sector Gwirfoddol, mae mwy o fyfyrwyr aeddfed a rhan-amser wedi cael eu perswadio i gofrestru ar gyrsiau yn Llanbedr Pont Steffan;

- Roedd Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan a Choleg y Drindod, Caerfyrddin, yn ddiweddar wedi ffurfio 'Cynghrair Strategol' er mwyn mynd i'r afael â'r her a oedd yn wynebu'r ddau sefydliad mewn ffordd fwy effeithiol. Nid uniad oedd hyn ond ffordd o sicrhau cydweithrediad ymarferol ar faterion o ddiddordeb cyffredin;

- Roedd sawl her yn wynebu sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ac roedd pawb yn ymwybodol o'r posibilrwydd o newidiadau yn y dyfodol.

2.5 Gwnaed y sylwadau a ganlyn wrth ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor:

- Grant Dysgu'r Cynulliad - dywedodd Ben Allen mai un o broblemau cychwynnol y Grant oedd y ffaith ei fod yn cael ei gyfrif fel incwm ac yna'n cael ei ystyried wrth bennu hawl pobl i fudd-daliadau, ond bod hynny bellach wedi'i gywiro. Problem arall oedd y diffyg eglurder ynghylch pwy yn union oedd yn gymwys i hawlio, ac roedd hynny'n aml yn arwain at wastraffu amser ar geisiadau anghymwys;

- Gwaith rhan-amser - yn ôl Ben Allen, prinder gwaith rhan-amser yn y dref oedd un o'r rhesymau pam nad oedd pobl yn gwneud cais i ddod i'r Brifysgol. Fodd bynnag, roedd yr Undeb yn cynnnig gwaith rhan-amser i rai myfyrwyr mewn meysydd fel diogelwch, gweithio tu ôl i'r bar ac yn y feithrinfa ac ar hyn o bryd roedd tua hanner cant o fyfyrwyr yn cael eu cyflogi. Nid oedd gwaith rhan-amser i fyfyrwyr yn ystyriaeth o bwys pan fyddai pobl yn gwneud cais gan nad oedd y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn llwyr sylweddoli costau addysg uwch. Dywedodd yr Athro Robbins fod gwaith rhan-amser i fyfyrwyr yn fater sensitif am nad oedd y Brifysgol am gael ei gweld fel un a oedd yn amddifadu'r bobl leol o waith rhan-amser. Fodd bynnag, roedd costau byw a chostau llety yn llawer rhatach yn Llanbedr Pont Steffan nag mewn dinas fawr ac felly nid oedd gwaith rhan-amser mor bwysig;

- Ffioedd ychwanegol – dywedodd yr Athro Robbins fod Prifysgol Cymru'n gwrthwynebu'r ffioedd. Drwy beidio â chyflwyno ffioedd o'r fath, gallai Prifysgolion Cymru fod yn fwy atyniadol i fyfyrwyr. Fodd bynnag, gallai hyn fod yn beryglus oherwydd byddai'n golygu gostyngiad yn incwm y Prifysgolion, er bod angen yr incwm hwnnw'n fawr, gan arwain at gwtogi ar draws adrannau. Gallai hyn greu system ddwy haen gyda'r sefydliadau hynny sy'n gryfach yn ariannol yn gallu denu gwell staff ac adnoddau, a fyddai'n golygu bod Prifysgolion Cymru'n cael eu hystyried fel dewisiadau 'cost isel, safon isel';

- Dewis o gyrsiau – dywedodd Ben Allen fod myfyrwyr yn debygol o ddewis cyrsiau a fyddai'n eu galluogi i gael swyddi penodol a thalu eu dyledion yn gyflym. Awgrymodd yr Athro Robbins y byddai cyflwyno ffioedd ychwanegol yn effeithio ar ddewis myfyrwyr o gyrsiau gan y byddent, efallai, yn dewis cwrs a fyddai'n siwr o arwain at swydd yn y pen draw. Fodd bynnag, y farn gyffredinol oedd bod budd mawr i'w gael o astudio cyrsiau nad oedd, o angenrhaid, yn uniongyrchol gysylltiedig â chyflogaeth;

- Cydweithredu â sefydliadau eraill – nododd yr Athro Robbins y byddai ad-drefnu gweinyddol, ar y cyd â Choleg y Drindod, yn effeithio ar yr hyn a oedd yn cael ei addysgu ym mhob canolfan ddysgu, ond byddai unrhyw newidiadau yn golygu bod staff yn teithio i addysgu yn hytrach na bod myfyrwyr yn teithio i wrando. Roedd yn gobeithio y byddai technoleg newydd yn lleihau'r baich teithio i ddarlithwyr.

2.6 Dyma rai o sylwadau'r gynulleidfa:

2.7 Dywedodd y Cynghorydd Peredur Eckland na ddylai myfyrwyr orfod talu i fynd i'r Brifysgol. Roedd llawer o fyfyrwyr aeddfed yn aml yn ymddiswyddo o swyddi a oedd yn talu'n dda er mwyn astudio am radd ac efallai byddent yn ailystyried pe baent yn meddwl eu bod yn mynd i fod mewn mwy o ddyled yn y dyfodol. Awgrymodd Ben Allen ei bod hi'n argyfwng o ran ariannu'r sector addysg uwch ond nid gofyn i fyfyrwyr i fynd i fwy o ddyled oedd y ffordd ymlaen;

2.8 Dywedodd Michael Bunny, a oedd yn gweithio yn y sector gwirfoddol, na fyddai ef wedi gallu mynd i brifysgol fel myfyriwr aeddfed pe bai'n rhaid iddo fod wedi talu ffioedd ychwanegol. Roedd y sector gwirfoddol eisoes yn cael anhawster recriwtio staff a byddai'r broblem yn gwaethygu pe bai pwysau ar bobl i ad-dalu dyledion yn gyflym. Dywedodd yr Athro Robbins y dylid ystyried y gost o fynd i'r Brifysgol fel buddsoddiad yn y dyfodol yn hytrach na dyled ond roedd yn hanfodol bod y system yn deg ac yn gyfiawn i'r trethdalwr;

2.9 Yn ôl Ken Williams nid oedd yn deg cymharu addysg Prifysgol heddiw ac yn y gorffennol am nad oedden ni'n cymaru tebyg â'i debyg. Bellach mae llawer rhagor o sefydliadau, a oedd yn arfer cael eu galw'n golegau polyteching, yn eu galw'u hunain yn Brifysgolion. Awgrymodd yr Athro Robbins bod diffygion yn y system addysg uwch unffurf gyfredol a dywedodd y byddai angen sefydliadau addysgu a sefydliadau ymchwil yn y dyfodol.

**Eitem 3**: **Ysgolion gwledig bach yng Ngheredigion**

3.1 Rhoddwyd cyflwyniad gan Roger Williams, Cyfarwyddwr Addysg Cyngor Sir Ceredigion ar ysgolion bach yng Ngheredigion ac effaith Grant Arbennig y Cynulliad. Dyma rai o bwyntiau'r cyflwyniad:

- Y Cefndir – mae gan dri chwarter yr ysgolion cynradd yng Ngheredigion lai na 90 disgybl;

- Cerrig milltir – ym 1998 lluniodd yr Awdurdod ddogfen ymgynghori bwysig o'r enw "Dyfodol Addysg Gynradd yng Ngheredigion". Mae'r ddogfen yn cynnwys

gwybodaeth ariannol ac ystadegol;

- Yn ystod Tymor yr Hydref 2001, daeth cynrychiolwyr holl brif bartneriaid y gwasanaeth addysg yng Ngheredigion ynghyd i greu'r Cynllun Strategol Addysg 2002-2005. Dylid gweld y camau a oedd yn cael eu hargymell yn y Cynllun fel pecyn ac nid fel eitemau unigol;

- Dylai'r gwasanaeth addysg sicrhau bod athrawon yn deall sut mae dysgwyr yn dysgu; a gwneud athrawon yn addysgwyr o fri;

- Creu system sy'n cynnig darpariaeth ddi-dor i ddisgyblion rhwng 3 a 18 oed a thu hwnt;

- Roedd materion strategol gan gynnwys grwpio ysgolion cynradd dan un tîm rheoli, penodi penaethiaid i ardaloedd yn hytrach nag adeiladau ysgolion unigol a hybu dysgu gydol oes trwy wneud cyfleusterau ysgolion yn agored i'r gymuned hefyd i gyd yn rhan o'r pecyn;

- Roedd yr agenda eisoes yn cael ei rhoi ar waith mewn dwy ardal ac roedd y manteision i'w gweld yn barod;

- Roedd Grant Arbennig y Cynulliad (a gâi ei ddefnyddio ar y cyd ag arian Cyfnod Allweddol 3) wedi bod yn ddefnyddiol iawn wrth hyrwyddo'r agenda bwysig hon yn nhalgylchoedd ysgolion uwchradd ac o ran hybu'r defnydd o gyfleusterau fideogynadledda a rhoi cymorth gweinyddol ychwanegol i benaethiaid sy'n rheoli mwy nag un ysgol;

- O'r 76 ysgol gynradd yng Ngheredigion, roedd 40 yn mynd i fod yn defnyddio band eang, ac roedd hyn yn golygu diffyg cyfle cyfartal i'r ysgolion hynny na fydd â'r cyfleuster hwn.

3.2 Gwnaed y sylwadau a ganlyn wrth ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor:

- Cau ysgolion bach – roedd Aelodau'n credu y dylai awdurdodau sylweddoli nad cau ysgolion bach oedd yr unig opsiwn a bod modd dod o hyd i atebion eraill drwy gydweithio.

3.3 Dyma rai o sylwadau'r gynulleidfa:

3.4 Cododd y Cynghorydd Dorothy James y pwynt yma, sef er ei bod yn ymddangos

bod cydweithio'n gweithio, roedd ysgolion bach ar eu colled oherwydd roedd yn well gan lawer o rieni anfon eu plant i ysgolion mwy mewn ardaloedd trefol megis Libanus ac Aberhonddu. Gofynnodd hefyd beth oedd y terfyn o ran nifer y disgyblion mewn ysgolion bach. Dywedodd Mr Williams nad oedd terfyn yng Ngheredigion ac nid oedd gan un o'r ysgolion ond naw disgybl, ond ar ddiwedd y dydd roedd dewis y rhieni'n dylanwadu ar lle'r oedd plant yn mynd i'r ysgol;

3.5 Gofynnodd y Cynghorydd Robert Harris beth oedd y diffiniad o ysgol fach. Yn ôl y Cadeirydd, diffiniad y Comisiwn Archwilio o ysgol fach oedd ysgol â 90 disgybl neu lai a dyma'r ffigur yr oedd y Cynulliad yn ei ddefnyddio;

3.6 Awgrymodd y Cynghorydd Allun Lloyd Jones fod cau ysgolion bach gwledig yn fater cymunedol gan ei fod yn effeithio hefyd ar fusnesau bach yn yr ardal. Roedd y Cadeirydd yn gwerthfawrogi y gallai fod effaith ar fusnesau bach ond roedd yn rhaid ystyried cynaliadwyedd ac ansawdd yr addysg yn gyntaf.

**Eitem 4: Cynaliadwyedd yng Ngheredigion**

4.1 Rhoddodd y Cynghorydd Alun Lloyd Jones a Helen Nelson gyflwyniad ar ran Ymlaen Ceredigion. Gwnaed y pwyntiau a ganlyn yn ystod y cyflwyniad:

- Grwp gwirfoddol oedd Ymlaen Ceredigion a gafodd ei sefydlu bedair mlynedd yn ôl ac a oedd wedi ymrwymo i ddatblygu cynliadwy. Roedd yn bartneriaeth rhwng Cyngor Sir Ceredigion, Ymddiriedolaeth y Tywysog Cymru a'r grwp cymunedol, Rhwydwaith Agenda 21 Lleol Ceredigion;

- Nod y grwp oedd 'gofalu am yfory, heddiw', gyda phrosiectau'n cael eu datblygu ar draws sir Geredigion. Un enghraifft oedd y 'Clwb Solar' a oedd yn ceisio annog pobl i osod paneli solar;

- Mae Ymlaen Ceredigion hefyd wedi darparu hyfforddiant a chyngor i'r sector cyhoeddus i helpu i wella'i berfformiad amgylcheddol, a chyfrannodd at adolygiad gwerth gorau mewnol y Cyngor ar gynaliadwyedd a oedd yn ceisio llunio strategaeth i'r sir gyfan ar ddatblygu cynaliadwy;

- Cyfrannodd Ymlaen Ceredigion hefyd at y gwaith o ddatblygu Strategaeth i'r sir gyfan ar Gynaliadwyedd, a lansiwyd ym mis Medi 2001 gan Sue Essex, y Gweinidog dros yr Amgylchedd.

- Ar hyn o bryd roedd y grwp yn gwneud cais am arian o'r gronfa Adfywio Lleol, Amcan 1, Cronfa Esmee Fairbairn, a grant cymunedol gan Gyngor Sir Ceredigion

i'w alluogi i barhau â'i weithgareddau ymwybyddiaeth a'i waith addysg.

4.2 Gwnaed y sylwadau a ganlyn wrth ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor:

- Lleihau Gwastraff – roedd gwastraff o hyd yn broblem ddifrifol yng Nghymru ac roedd angen mwy o ymrwymiad o fewn y sector preifat i leihau gwastraff a gwella ailgylchu. Roedd Ceredigion yn gwneud yn dda o ran ailgylchu o'i chymharu â gweddill y DU ond roedd ffordd bell i fynd cyn y byddai cystal â'r Gymuned Ewropeaidd;

- Addysg – ar hyn o bryd roedd Ymlaen Ceredigion yn rhan o'r broses ymgynghori ar wastraff a fyddai, gobeithio, yn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r materion dan sylw;

- Amcan 1 – gwnaed cais am arian ar gyfer sawl cynllun bach a oedd yn amlwg yn effeithiol, gan gynnwys cais am swyddog datblygu i ymchwilio i ynni adnewyddadwy yn dilyn fforwm ar gynaliadwyedd yng Ngheredigion yn ddiweddar;

- Materion iechyd – roedd prosiectau i fynd i'r afael â thlodi bwyd wedi'u sefydlu trwy ddarparu mynediad i gynnyrch bwyd lleol yn y Farchnad Ffermwyr yn Aberystwyth a hefyd yn sgil cynllun yn Aberteifi, ond roedd angen gwneud mwy.

4.3 Dyma rai o sylwadau'r gynulleidfa:

4. Dywedodd Michael Bunny fod cynaliadwyedd yn fater a oedd yn berthnasol i sawl maes gwahanol a chanmolodd y gwaith y mae Ymlaen Ceredigion yn ei wneud ar hyn o bryd.

4.5 Gofynnodd Rhiannon Passmore a oedd unrhyw gysylltiadau ffurfiol rhwng y partneriaethau a'r ysgolion. Dywedodd Helen Nelson fod peth cysylltiad ffurfiol wedi'i sefydlu ond roedd Ymlaen Ceredigion yn sylweddoli bod angen dull mwy cydlynus o fynd i'r afael â'i weithgareddau addysgol ac roedd y rhain yn cael sylw.

4.6 Dywedodd Paul Finch fod y Comisiwn Coedwigaeth yn gwneud cais am arian cyfalaf drwy Amcan 1 ar gyfer prosiectau gwresogi gan gynnwys defnyddio sbarion o felinau llifio. Dywedodd y Cynghorydd Alun Lloyd Jones fod gan y ganolfan hamdden newydd yn Llandysul weithdy biomas a oedd yn defnyddio sbarion coed lleol i wresogi'r Ganolfan. Awgrymodd y dylai Cyngor Sir Ceredigion ystyried adolygu'i stoc dai gyda'r nod o sicrhau ei bod mor ynni-effeithlon â phosib. Gellid cyflawni hyn drwy osod paneli lapio a phaneli solar lle bo'n briodol.

**Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

1. Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol.

**Eitem 6: Unrhyw fater arall**

1. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n cynnal cyfarfod arall ddydd Gwener 14 Mawrth - lleoliad i'w gadarnhau.